# Mosaicplasty ar gyfer diffygion cartilag articwlar symptomatig y pen-glin

14 Mawrth 2018

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer diffygion cartilag articwlar symptomatig y pen-glin ac nid oes unrhyw bryderon difrifol ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw.

Mae cartilag articwlar yn cwmpasu ymyl yr esgyrn mewn cymal (megis y pen-glin) ac yn eu rhwystro rhag rhwbio yn erbyn ei gilydd pan fyddwch yn symud. Gall gael ei niweidio oherwydd anaf, clefyd (megis osteochondritis, sef llid y cartilag neu'r asgwrn), neu draul. Gall hyn achosi poen a niwed pellach i'r cymal, ac effeithio ar symudedd. Gwneir mosaicplasty drwy lawdriniaeth agored neu dwll clo. Cymerir cartilag iach o ymyl y cymal, sydd â llai o bwysau, a chaiff ei fewnosod mewn twneli wedi'u drilio yn y safle sydd wedi'i niweidio. Y nod yw annog y corff i wella a gwella symudedd.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2862-0

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights